

Cenn@d

MEHEFIN 23 2021 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 17

Cofio Tudur Jones

A hithau'n gan mlynedd ers geni R. Tudur Jones, Prifathro Coleg yr Annibynwyr, Bala-Bangor, awdur, cenedlaetholwr a diwinydd toreithiog, cawn gyflwyniad i'w ddylanwad ar ddau o'i wyrion ar ran y cenedlaethau sydd wedi elwa o'i ddysg a'i arweiniad. Yr wythnos hon, Rhodri Glyn sy'n ystyried y dylanwadau arno ef.

Dylanwad Taid

Pedair ar ddeg oeddwn i pan fu farw Taid, a serch fod gen i ryw syniad o'r hyn a wnâi, doedd gen i ddim dyhead ar y pryd i fentro i faes cyffelyb. Ond, wrth edrych yn ôl, daw ambell beth i'r cof sy'n debygol o fod wedi dylanwadu'n ddiarwybod ar fy myd-olwg, yn enwedig felly mewn perthynas â hanes a Christnogaeth.

Er enghraifft, ymhell cyn deall beth oedd Diwygiad 1904/05, gwyddwn ei fod yn bwysig ac yn ddiwyddiad a effeithiodd yn fawr ar ein teulu ni. Yng nghyntedd Treddafydd, lle symudodd Nain a Taid o Fala-Bangor ym 1988, gosodwyd darn bychan o wnïo yn coffâu'r diwygiad a geiriau o Salm 119 arno: 'Llusern yw dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr'.

Amlygodd hyn rywbeth a gadarnhawyd yn ddiweddarach wrth i mi ddarllen adroddiadau am ddiwygiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymhell o fod yn orchwyl oeraidd a diflas, proses gyffrous yw astudio hanes Cristnogaeth yng Nghymru. Sylweddolais fy mod yn cael y fraint o ddarllen am y Duw byw yn ymwneud mewn ffordd rymus â phobl go iawn, gan gynnwys fy hen nain, a brofodd y fath fendith ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Cefais fy ngwefreiddio wrth feddwl mai'r un Duw tragwyddol, a gafodd y fath effaith ar Gymru ddoe, sy'n parhau i weithio heddiw wrth alw pobl ato'i hun yn Iesu Grist.

Trwy waith Taid hefyd, agorwyd fy llygaid i'r cyfoeth diwinyddol sy'n deillio o hanes Cristnogaeth yng Nghymru. Digwyddodd hynny wrth i mi fel Cristion ifanc yn Aberystwyth ddechrau darllen *Yr Ysbryd Glân*, cyfrol fu'n faes llafur ysgolion Sul ac a gyhoeddwyd ym 1972. Ar ddiwedd pob pennod, ceir llyfryddiaeth helaeth o weithiau'n ymdrin â'r pwnc athrawiaethol

dan sylw. Ynghyd ag enwau mawr yr eglwys Gristnogol, cynhwyswyd nifer o awduron Cymreig a'm helpodd i ddod i wybod mwy am weithiau a phregethau rhai o gewri'r ffydd yng Nghymru. Dangosodd hyn i mi fod modd trysori ac elwa o'r etifeddiaeth Gristnogol Gymreig heb fod yn ynysig, ac y gellir gwerthfawrogi doethineb Duw ar hyd yr oesoedd, ac ar draws y cenedloedd, o Athanasiws i Calfin a Thomas Charles.

Testun fy nhraethawd ymchwil oedd David Rees, Llanelli – y 'Cynhyrfwr' fu â'i fys mewn llawer brywes, wrth iddo olygu'r *Diwygiwr* a bod yn weinidog ar Eglwys Annibynnol Capel Als rhwng 1829 a 1869. Yn naturiol, nid oedd y cyswllt rhwng Cristnogaeth a gwleidyddiaeth yn ddiethr i mi, ond wrth i'r gwaith ymchwil fynd rhagddo, bu cyfrolau megis *Hanes Annibynwyr Cymru a Ffydd ac Argyfwng Cenedl* yn gymorth mawr i geisio deall twf a dirywiad Anghydfurfiaeth Gymreig. Wrth edrych ar bethau o fewn cyd-destun ehangach datblygiad yr eglwys Annibynnol, roedd hi'n bosib



gweld pam y daeth cymaint o weinidogion i fod yn arweinwyr cymdeithasol blaenllaw yn oes Fictoria, a'u bryd ar unioni anghyfiawnderau hanesyddol. Ac wrth drafod datblygiadau troad yr ugeinfed ganrif cyflwynwyd dadansoddiad sy'n parhau i fod yn ysgogiad i Gristnogion heddiw wrth i ni geisio adnabod yr amserau a chyflwyno'r Efenngyl yn y Gymru gyfoes.

Rhodri Glyn,
Llanannan



Y Gair a'r Genedl: canmlwyddiant geni R. Tudur Jones

Darlith gan yr Athro D. Densil Morgan

NOS LUN,
28 MEHEFIN
7:00 P.M.



E-BOSTIACH
UNDEB@ANNIBYNWYR.CYMRU
I DDERBYN LINC

Ar union ben-blwydd y diweddar R. Tudur Jones yn 100 oed, dewch i glywed yr Athro D. Densil Morgan yn traddodi ei ddarlith 'Y Gair a'r Genedl: Canmlwyddiant geni R. Tudur Jones', dros Zoom nos Lun, 28 Mehefin, am 7.00pm.

I ymuno ar Zoom, e-bostiach undeb@annibynwyr.cymru.

Traddodwyd y ddarlith hon gyntaf ym mis Chwefror eleni gyda Chymmrodorion Caerdydd.

Y Silff Lyfrau
Gair o Gysur
Tudalen 2

O'r Swyddfa
Symud ymlaen – gam wrth gam
Tudalen 4

O Gefn Gwlad
Gormes a dylanwad
Tudalen 7



Y Silff Lyfrau



Gair o Gysur

Golygwyd gan Elin Angharad Davies

‘Llyfr cof a hiraeth; ni all neb ei gau’

Mae'r profiad o golli rhywun annwyl yr un fath o un genhedlaeth i'r nesaf. Yr un ydi'r boen, a'r galar a'r hiraeth. Ond mae'r arferion cymdeithasol sydd ynghlwm â chydymdeimlo mewn profedigaeth wedi newid. Yn yr hen ddyddiau, yr arfer oedd mynd i ymweld â'r profedigaethus gyda hanner pwys o de neu dun salmon, neu ynteu anfon llythyr neu gerdyn. Erbyn heddiw mae pobol yn aml yn anfon blodau, yn ffonio neu'n tecstio, neu'n anfon neges trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol – Facebook a Trydar – canolbwynt bywyd cymdeithasol cymaint ohonom. Yn aml, gwelir rhes o galonnau a chusanau ar y negeseuon hynny, ond dim un gair. Ac eto mae lle i eiriau.




Ar ôl colli ei mam yn greulon o sydyn ddiwedd 2019, a'i thad ychydig flynyddoedd cyn hynny, aeth Elin Angharad Davies ati i sefydlu tudalen Facebook o'r enw Gair o Gysur, gan bostio cerddi o'i gwaith ei hun ac addasiadau, ynghyd â dywediadau cysurlon ar gefndir ffotograffau atmosfferig. Bu'r dudalen yn hit mawr gan ddenu ymhell dros ddwy

fil o ddilynwyr, ac mae wedi cynnig cysur i lu a brofodd golled neu amgylchiadau anodd. Ond oherwydd natur fyrhoedlog y cyfrwng, diflanedig ydi'r postiadau arni, yn hytrach na rhywbeth solet y gellir troi'n ôl ato am gysur. Dyna fu'r sbardun i Elin fynd ati, ar wahoddiad Gwasg y Bwthyn, i lunio'r casgliad a welir yn y gyfrol *Gair o Gysur*.

Dywed Elin yn ei Rhagair mai gefn nos y byddai'n ysgrifennu neu'n addasu llawer o'r cerddi a geir yn *Gair o Gysur*, a bod hynny wedi ei helpu i ymdopi â'i galar. Yn ei bywyd bob dydd mae hi'n brysur: yn Bennaeth Cerddoriaeth yn Ysgol y Creuddyn, yn wraig fferm yn ardal Ysbyty Ifan a mam i bedwar o blant. Yn ogystal â thrin geiriau, mae Elin yn delynores brofiadol ac mae cerddoriaeth yn bwysig i'r teulu cyfan.

Mae *Gair o Gysur* yn gyfrol gyfoes, gan adlewyrchu natur ein cymdeithas heddiw. Ceir yma gerddi, neu ddyfyniadau o gerddi crefyddol ac emynau, a dyfyniadau o'r Beibl hefyd, ochr yn ochr â chaneuon cyfoes gan feirdd mor amrywiol â Dewi Pws, Meirir Gwilym, Mei Gwynedd a Lleuwen Steffan. Mae'r caneuon o waith mam Elin, Margaret Edwards, yn 'canu yn y co', a cherddi Elin ei hun yn cyffwrdd y galon. Er bod y cynnwys yn ddwys mae'r ffotograffau o waith Iestyn Hughes, Lisa Elan Davies ac Aled Hall yn hyfryd ac yn codi'r ysbryd.



Dyma gyfrol werthfawr – wrth ddewis neges addas i'w rhoi ar gerdyn, neu ddarlleniad ar gyfer gwasanaeth coffa neu angladd, neu i'w rhoi'n anrheg i ffrind. Bydd llawer yn cadw eu copi wrth erchwyn y gwely. 'Rhannu'r geiriau' oedd nod Elin pan aeth hi ati i sefydlu ei thudalen Facebook ac wedyn wrth olygu'r gyfrol hon; llwyddodd yn sicr yn ei hamcan – rhwng dau glawr yma crynhoir cysur rhyfeddol geiriau.

Cyhoeddwyd y gyfrol er budd yr elusen meddwl.org

Mae *Gair o Gysur* ar gael yn eich siop lyfrau leol neu o gwales.com

Gwasg y Bwthyn, Caernarfon, Clawr caled: £9.00

“Dewch ata i, bawb sy'n cael eich llethu gan feichiau trwm, a rhof i orffwys i chi”



Wrth i'r tywydd wella, efallai bod rhai'n ystyried cymryd gwyliau haf, a ble gwell na Choleg Trefeca yng nghanol Bannau Brycheiniog! Wedi'i leoli mewn ardal o harddwch naturiol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ymweld ag atyniadau amrywiol sydd o fewn cyrraedd i bentref Trefeca. [Cliciwch yma](http://Cliciwch_yma) i weld beth sydd wedi'i leoli'n lleol.

Mae ein llety yn en-suite, gyda chyfleusterau gwneud te a choffi, a wif am ddim. Mae'r Capel Bach ar gael ar gyfer gweddi breifat.

‘Wythnos Gwyliau’

31/7/2021 - 7/8/2021 £68.50 y pen, y noson, sy'n cynnwys prydau bwyd - brecwast, cinio a swper. Paratoir pecyn cinio ar gyfer y rhai sydd am fynd allan am y diwrnod. (Mae cyfradd is o £34.25 ar gyfer plant, ac mae plant dan 3 oed am ddim).

I archebu lle, e-bostiwch Mair a Richard coleg.trefeca@ebepcw.cymru neu ffoniwch 01874 711423.

Dal ati i gyfarfod ac ordeinio blaenoriaid yn Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain

Yn ein cyfarfod agored o Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain yn festri Bethesda ac ar Zoom nos Fercher, 19 Mai, yr oeddem yn hynod o falch i gael ordeinio dau flaenor newydd yn ein plith yn yr eglwys yn yr Wyddgrug. Cafodd Robin a Gwenith Jones eu codi'n flaenoriaid ar y Sul olaf i gynulleidfa Bethesda, yr Wyddgrug, gyfarfod cyn y clo cyntaf ym mis Mawrth 2020. Braf felly oedd cael y cyfle hwn, wedi hir ddisgwyl, iddynt gael eu hordeinio'n swyddogol gyda llywydd y Sasiwn, Cynthia Owen, a Llywydd yr Henaduriaeth, Marian Jones, yn bresennol ac yn arwain y cyfarfod. Mae'r ddau eisoes yn weithgar iawn yn eu heglwys ac rydym yn falch iawn o'u cyfraniad a'u gwasanaeth.

Bu'r holi o dan arweiniad eu gweinidog, Huw Powell-Davies, a seiliodd yr holi ar y hanes ar ddechrau llyfr yr Actau sy'n nodi gweithgaredd y disgyblion wrth iddyn nhw ddisgwyl am yr Ysbryd Glân. Cawsom anogaeth fawr wrth wrando eu tystiolaeth yn y cyfarfod i alwad Duw ar eu bywydau a'u ffyddlondeb tuag atynt drwy bob cyfnod yn eu bywydau. Soniodd y ddau am y disgwyl a'r dysgu oedd wedi digwydd dros y flwyddyn a fu, ac am angen pob un ohonom am y gymdeithas sydd i'w chael oddi mewn i'r eglwys a'r natur wahanol sydd iddi o'i chymharu â'n cymdeithas yn y byd.



Robin a Gwenith Jones, Yr Wyddgrug.

Gweddwyd dros y ddau gan Nan, cydweinig yr eglwys. Rhoddwyd cyngor gan Cynthia Owen i'r ddau a phawb ohonom oedd yno ac yn eu cartrefi. Fe ddiweddyd y cyfarfod gyda chwech o'r rhai oedd yn bresennol yn canu emyn â Robert Parry, yr Ysgrifennydd, yn cyfeilio.

Yn ail gyfarfod yr henaduriaeth yn ddiweddarach y noson honno, diolchwyd ein bod wedi gallu cyfarfod yn ôl ein harfer drwy'r flwyddyn ar Zoom. Llwyddwyd i drefnu nifer o bethau oedd o fudd i'r eglwys, fel cyfarfodydd gweddi'r henaduriaeth yng nghanol y cyfnodau clo ac oedfa fyfyrdd a gweddi bob nos Sul i eglwys i'r henaduriaeth, o Fanceinion a Lerpwl draw i Lanarmon-yn-lâl a Glyn Ceiriog. Diolchwyd hefyd am arweiniad ein llywydd, Marian, drwy'r cyfan i gd.

Roedd adroddiad y trysorydd a chyfarfod ein pwyllgor gweinidogaethau wedi ein hysgogi i gynllunio'n genhadol ar gyfer ailadeiladu ein heglwys wedi'r pandemig. Cafwyd trafodaeth ym mhwyllgorau ein henaduriaeth am y ffordd orau i wneud defnydd o'r arian sydd wedi dod i'n gofal yn ddiweddar yn sgil cau capeli Gwynfa a Nant-y-fflint, yn ogystal â'r arian oedd mewn cronfeydd yng ngofal ein henaduriaeth (ar wahan i'r gronfa strategaeth).

Penderfynwyd gwahodd yr eglwys i gyflwyno cynlluniau sydd angen nawdd ac a fydd yn gymorth neu'n hyrwyddo cenhadaeth yr eglwys yn lleol. Teimlwyd bod hyn yn ddefnydd priodol o'n hadnoddau ac yn goffa da am y rhai fu'n llafurio yn yr eglwys yma sydd wedi gadael gwaddol inni. Roedd cais gan gyn-aelodau eglwys Gwynfa i gofio'n benodol am gyfraniad Myra Williams, a fu farw yn 2015, i'r eglwys a'r Cyfundeb. Gwnaed hynny drwy rodd i gefnogi caplaniaeth hosbis Sant Cyndeyrn yn Llanelwy (£1000).

Penderfynwyd ein bod fel henaduriaeth yn cyfrannu £2000 at apel frys y Cyfundeb ar gyfer gweinidogaeth iachâd Eglwys Bresbyteriaid yr India yn ysbytai'r eglwys yng Ngogledd-ddwyrain yr India, oherwydd yr amrywiol gysylltiadau â'r ysbytai hynny a fu yn yr henaduriaeth. Diweddyd yr henaduriaeth mewn trafodaeth frwd am natur a hyd y gwaharddiad ar ganu yn ein cynulleidfa oedd a dyhead dwfn am gael moli ynghyd eto!

(HP-D)

Eisteddfod Rithiol Cenn@d 2021 – cystadleuaeth i'n darllenwyr

Dyma neges i'ch atgoffa am gystadleuaeth arbennig ar gyfer darllenwyr Cenn@d. Cofiwch mai wythnos sy'n weddill os ydych am gystadlu i greu gweddi, salm neu emyn. Rhaid i'r cynnyrch ein cyrraedd erbyn Mehefin 30 fan bellaf, er mwyn rhoi amser digonol i'r beirniaid gloriannu'r gwaith yn ystod mis Gorffennaf. Felly, ewch amdani ... Bydd enwau a gwaith y buddugwyr yn cael eu cyhoeddi yn Cenn@d ddechrau Awst.

Mae gennym dair cystadleuaeth ar eich cyfer, sef:

1. Lluio englyn

Cyfansoddi englyn ar y thema 'Galwad'

Beirniad y gystadleuaeth hon fydd Eurig Salisbury



Eurig Salisbury

2. Geiriau i emyn

Cyfansoddi emyn ar y thema 'Gobaith'

Beirniad y gystadleuaeth hon fydd Delyth Morgans Phillips

3. Salm fodern

Creu salm gyfoes ar y thema 'Clodfori Duw yn y byd cyfoes'

Beirniad y gystadleuaeth hon fydd Aled Lewis Evans

Anfonwch eich cyfansoddiadau, un ai drwy e-bost at aled@ysgolsul.com, neu drwy'r post at: Cystadleuaeth Cenn@d, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH, i gyrraedd ddim hwyrach na **30 Mehefin**. Bydd copi o'r gyfrol *Gweddiau Elfed*, sef casgliad cynhwysfawr o weddiâu'r diweddar Ddr Elfed ap Nefydd Roberts, yn wobwr ym mhob categori.



Delyth Morgans Phillips



Aled Lewis Evans

O'r Swyddfa

Symud ymlaen – gam wrth gam

Cymanfa a Chymdeithasfa?

Rydym wedi treulio tipyn o amser dros yr wythnosau diwethaf yn ystyried beth sy'n briodol o ran cynnal cyfarfodydd cyhoeddus wyneb yn wyneb, nid yn unig fel cynulleidfaoedd, ond hefyd fel Llysoedd enwadol, dros gyfnod yr haf.

Gan fod yna gwestiynau pellach wedi codi, a hynny oherwydd yr ansicrwydd am effaith yr amrywiolyn Delta, ein teimlad yn awr yw y dylem anelu at geisio cynnull nifer cyfyngedig o bobl at ei gilydd i'n Llysoedd eleni eto, a gwahodd pawb arall i ymuno dros y we.

Mi fydd tair talaith y Gymdeithasfa yn cyfarfod yn ystod mis Gorffennaf. Yng nghyfarfod Talaith y De, mi fydd Mr Emyr Williams yn cael ei ordeinio, yn dilyn ei alw i weinidogaethu yng Ngofalaeth y Gwendraeth. Cofiwch amdano efa'i deulu yn eich gweddïau, fel holl gyfarfodydd y Gymdeithasfa a'r Henaduriaethau dros y misoedd nesaf.

Cymanfa Gyffredinol

O ran y Gymanfa Gyffredinol, mi fyddwn yn cynnal cyfarfodydd ac oedfaon yn Seilo, Caernarfon, 20–21 Medi, gyda'r rhan fwyaf o aelodau'r Gymanfa yn cael eu gwahodd i ymuno yn rhithiol. Mi fydd yna oedfa gymun a choffâd ar y nos Lun, pryd y bydd y Parch Ddr Elwyn Richards yn pregethu.

Byddwn yn cofio am ein gweinidogion a fu farw dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac yn coffáu tri o'n Cyn-lywyddion: Y Parch Ddr Elfed ap Nefydd Roberts, yr Athro John G Jones a'r Parch Cynwil Williams. Mi fydd ein dwy ddarlith, y Ddarlith Davies a'r Ddarlith Hanes, yn cael eu traddodi yn ystod y deuddydd, ac ar y nos Fawrth byddwn yn cynnal oedfa'r Llywydd, gyda'r Parch Marcus Robinson yn adlewyrchu ar y ddwy flynedd olaf hyn, ac yn trosglwyddo'r Gadair i'r Parch Evan Morgan.

Apêl

Testun diolch sydd gennym fod ein hapêl frys dros y pythefnos diwethaf wedi codi dros £50,000, a disgwylir y bydd y swm



hwn yn cynyddu wrth inni hawlio ad-daliad Rhodd Cymorth. Rydym eisoes wedi trosglwyddo £30,000 i'r ysbytai yn Shillong a Jowai i sicrhau prynu'r offer creu ocsigen wrth iddynt fynd i'r afael â lledaeniad Covid ar Fryniau Casia.

Rydym yn trafod yr wythnos hon sut y medrwn ddefnyddio gweddill yr arian, ochr yn ochr â'r arian y mae eglwysi'r Bryniau wedi ei godi, i gyfarfod â chost staffio'r gwelyau ychwanegol sydd wedi eu hagor i drin y clefyd yn Ysbyty Gordon Roberts ac Ysbyty Norman Tunnel.

Dysgu a symud mlaen

Yn agosach at adre, rydym ar hyn o bryd yn edrych ar effaith hirdymor y cyfnod

diwethaf ar ein trefniadau gweinyddol fel Cymanfa Gyffredinol, gan gynnwys Swyddfa'r Gymanfa. Er ein bod i gyd yn edrych ymlaen at ddychwelyd i gyfnod heb y cyfyngiadau presennol, eto, nid ydym am i'r cyfnod fynd heibio heb inni ddysgu ei wersi, ac elwa, gobeithio, o'r ffyrdd gwahanol yr ydym yn rhagweld mewn perthynas â gweinyddu'r Gymanfa a'r Llysoedd i'r dyfodol. Eisoes cafwyd sgwrs fuddiol gyda Swyddogion y Gymdeithasfa, a gofynnwn ichwi weddio y bydd y sgwrsiau sydd o'n blaen yn gwneud y ffordd yn eglur inni wrth gamu ymlaen.

Meirion Morris

Ysgrifennydd Cyffredinol EBC

Cynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21

'HALELIWIA AM HERESI'

3.00 p.m. dydd Sul 27 Mehefin
gyda

JOHN BELL

awdur, cerddor, pregethwr a darlledwr o gymuned Iona, yr Alban



I gofrestru, eboniwch:
cristnogaeth21@gmail.com
CYN 18 Mehefin

Byddwch yn derbyn manylion sut i dalu,
a dolen i ymuno ar Zoom

Cyfyngir nifer y dyfeisiau i 100
Tâl ymuno: £8 y ddyfais



Maes llafur yr Ysgol Sul – diolch ac edrych ymlaen

A hithau'n ganol mis Mehefin erbyn hyn, mae blwyddyn arferol yr ysgol Sul yn prysur ddod i ben, a hynny ar ddiwedd cyfnod cwbl anghyffredin ac anarferol. Er bod yna lawer o adnoddau wedi eu creu, prin fu'r cyfle i'w defnyddio, ond mawr obeithiwn y daw cyfle eto yn y dyfodol wrth i grwpiau trafod ddechrau ailgyfarfod yn ein heglwysi.

Yn ystod tymor 2020/21 cafwyd maes llafur i oedolion wedi ei baratoi bob wythnos gan y Parchg Denzil John, Caerdydd. Cafwyd 54 gwers ganddo'n ein cyflwyno i rai o gymeriadau mwyaf cyfarwydd y Testament Newydd. Yn ogystal â darparu gwers wythnosol a ymddangosodd yn y papurau enwadol, fe aeth ati yn ogystal i gyflwyno ffilm o bob un wers, ac mae'r ffilmiau hynny i'w gweld ar wefan www.ysgolsul.com. Mawr yw ein diolch i Denzil am y ddarpariaeth gyfoethog hon. Er na fu grwpiau'n cyfarfod mewn sawl capel lle'r arferid cynnal dosbarth oedolion, gobeithiwn y bydd modd i eraill eto yn y dyfodol droi at y deunydd hwn. Mae'n ddelfrydol fel deunydd trafod mewn seiat neu astudiaeth Feiblaidd.



Denzil John

Yn yr un modd, bu nifer wrthi'n paratoi gwersi Ysgol Sul / Clwb Plant yn wythnosol drwy gydol y cyfnod clo. Cafwyd 62 pecyn wedi'u paratoi gan griw o bobl yn cael eu harwain gan Andy Hughes o Saint y Gymuned. Roedd y pecynnau hynny yn llawn straeon, syniadau crefft a gweddi, heriau wythnosol, posau a thafleuni, yn ogystal â dulliau creadigol o adrodd y stori. Yn cynorthwyo Andy gyda'r gwaith yr oedd Susan Williams o Gynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon; Nia Williams o Eglwys Bresbyteriaidd Cymru; a Jennifer Roberts o Eglwys Bresbyteriaidd Cymru gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, Delyth Dempsey a Gwyn Rhydderch.



Andy Hughes

Mawr yw ein diolch i chi oll fel tîm gweithgar. I gyd-fynd â'r pecyn yma, roedd 'na ffilm Feiblaidd hefyd, yn cael ei chynhyrchu gan Gwyn Rhydderch, a chân Gristnogol wreiddiol newydd i blant yn rhannu neges y wers bob wythnos, wedi'i chyfansoddi a'i chanu gan Andy Hughes. Rydym yn gobeithio cynnwys yr holl adnoddau yma ar wefan ysgolsul.com yn fuan, er mwyn i ysgolion Sul lleol fedru eu lawrlwytho a'u defnyddio wrth ailgydio yng ngwaith yr ysgol Sul yn ein heglwysi.


Bu Delyth Murphy a Helen Roberts hefyd yn brysur yn addasu gwersi ysgol Sul yn dilyn hanes bywyd Iesu, gan ddefnyddio adnoddau Max&, sy'n rhan o'r adnoddau a welir ar wefan beibl.net. Criw arall a fu'n brysur yn paratoi pecynnau wythnosol yn Gymraeg a Saesneg oedd Tîm Plant Esgobaeth Aberhonddu ac Abertawe, o dan yr enw Cymuned Bach, ac mae'r pecynnau thematig hyn bellach i'w cael o wefan ysgolsul.com.

Diolch i bawb am eu llafur. Cofiwch fod yna gannoedd o wersi a syniadau ar gael erbyn hyn hefyd yn rhad ac am ddim o wefan www.gair.cymru, o dan nawdd Cyngor yr Ysgolion Sul.

Wrth edrych ymlaen felly at fis Medi 2021, dyma gyflwyno'r arlwy newydd ar ein cyfer:

Maes llafur yr oedolion

O fis Medi 2021 ymlaen, bydd y maes yn seiliedig ar y gyfrol *Dehongli Bywyd a Gwaith Abraham*, gan ddilyn y llyfr cyntaf mewn cyfres newydd gan yr Athro Gareth Lloyd Jones, sy'n ddilyniant i gyfres boblogaidd Elfed ap Nefydd Roberts, 'Dehongli ...' ar y Testament Newydd. Byddwn yn troi i gyfeiriad Abraham yn gyntaf, ac yna, yn 2022, yn astudio'i ail gyfrol yn y gyfres, sef *Dehongli Bywyd a Gwaith Esther a Jona*, cyn gorffen gyda *Dehongli Bywyd a Gwaith Moses*. Yn ychwanegol at y cyfrolau hyn, fe fydd




yna gyflwyniad byr i'r wers ac ambell sylw perthnasol a chyfoes yn cael eu cynnwys o fewn tudalennau'r papurau enwadol.

Maes llafur i blant ac ieuencid

Erbyn hyn, mae llu o adnoddau ar gael i gynnal ysgol Sul – cofiwch am yr amrywiol wefannau sy'n rhan o deulu Cyngor yr Ysgolion Sul.

O ran y prif werslyfr, byddwn yn troi at gyfrol sydd wedi'i pharatoi mewn partneriaeth â Chymorth Cristnogol, sef *Sesiynau Astudio Sach Stori Cyfiawnder Mawr*, wedi'i haddasu i'r Gymraeg gan Dyfed Wyn Roberts. Dyma werslyfr i blant 5–11 oed yn dilyn hanes a gwaith Cymorth Cristnogol, a'r un pryd yn dysgu am rai o straeon cyfarwydd y Beibl. Mae'r pecyn ar gael fel cyfrol brint am £7.99 neu mae modd archebu copi electronig ar y we am £5.99 o wefan ysgolsul.com.



Mae Cyngor yr Ysgolion Sul yn bwriadu trefnu taith adnoddau mewn canolfannau strategol ar draws Cymru. Dim ond pan fydd hi'n ddiogel ac yn gyfrifol i wneud hynny y byddwn yn trefnu'r daith, wrth gwrs, gan ddilyn y canllawiau diweddaraf o ran yr hyn y caniateir i ni ei wneud. Daw mwy o wybodaeth am hyn maes o law.



Cofiwch gysylltu os gallwn fod o gymorth i chi yn lleol wrth ichi ailgychwyn ar y gwaith ddechrau Medi.

Aled Davies
Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru

ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

YR EGLWYS FORE

Cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Cymeriadau'r Testament Newydd

Yr Eglwys Fore

51 – Awdur y Llythyr at yr Hebreaid

Gweddi

Dduw'r datguddiad mawr, diolchwn am dy gariad a'th raslonrwydd, dy amynedd a'th ddyfalbarhad gyda ni. Helpa ni i ddarllen y testun heddiw yn wylaidd, ac i ystyried pa mor ffyddlon rydym ni i ti. Helpa ni i ddeall geiriau'r awdur sy'n dweud 'mai pobl ffydd sy'n mynd i feddiannu'r bywyd'. Amen.

Darllen

Hebreaid 8: 1-6; 10: 19-39

Cyflwyniad

O blith holl adrannau'r Testament Newydd, prin fod yna un sy'n codi cwestiynau anoddach, o ran ei awduraeth, ei ddyddiad nac at bwy y bwriadwyd ef yn wreiddiol, na'r Llythyr at yr Hebreaid. I'r sawl sydd â diddordeb, ceir esboniadau gwerthfawr gan lawer, ond neb mor eglur ag eiddo D Hugh Matthews. Yn draddodiadol, dywedid mai Paul a'i lluniodd, ond gwrthodwyd y syniad hwnnw gan arbenigwyr y ganrif ddiwethaf, a throi i ystyried pobl fel Apolos, Luc neu Priscila fel posibiladau. Er mor ddifyr y drafodaeth, yr hyn sy'n bwysig am y llythyr yw ei fod yn cadarnhau fod Iesu yn bwysicach nag unrhyw berson dynol arall yn nhrefn Duw, ac mai ef yw'r un sy'n rhagori. Cyflwynir y testun mewn ieithwedd y byddai Iddewon yn gyfarwydd â hi, ac yn ddeunydd y byddai grwpiau bach o Gristnogion, mewn celloedd cudd, mae'n siŵr, yn barod i'w drafod a derbyn bendith o wneud hynny. Gwelir Iesu fel un sy'n cyflawni holl amcan Duw ar hyd y canrifoedd ac yn dwyn teulu'r ffydd i berthynas gyflawn â Duw.

Mae cael esboniad wrth benelin yn bwysig wrth ddarllen yr epistol gwerthfawr hwn, ac mae'n ddarn o lenyddiaeth Gristnogol y byddai'n brofiad gwerthfawr i bob Cristion fyfyrion uwch ei ben. Cyn darllen pob darn o lenyddiaeth, beth bynnag y bo, mae'n bwysig cofio cyd-destun yr ysgrifennu. Nid yw'r awduron yn llefaru yn gwbl dryloyw bob tro, ac felly mae angen gwerthfawrogi'r delweddau Iddewig a ddefnyddir.

Myfyrdod

Pan fydd un person yn anfon neges at rywun arall dan ffugenw, neu fod y gwaith yn ddiennw, gallwn ddyfalu naill ai fod y derbynnydd yn adnabod y sawl sy'n cyfarch a bod angen mesur o gyfrinachedd, neu fod yr awdur am guddio'i hun, gan feddwl bod y neges yn fwy ac yn bwysicach na'r negesydd. Gallwn ddeall hynny mewn cyfnod o erledigaeth o bosibl pan luniwyd y testun.

Bydd y sawl sy'n dilyn chwaraeon yn mwynhau sgwrs ddifyr i ystyried pwy oedd y chwaraewyr gorau mewn cystadleuaeth fel Cwpan Rygbi'r Byd. Bydd eraill yn cael hwyl yn enwi'r soprano orau a fu erioed, neu beth bynnag y categori. Bydd y sawl sy'n ymdeimlo â'r ysbrydol yn gofyn cwestiynau tebyg i hyn ym mhob oes, fel yn ystod y ganrif gyntaf OC. Gwelodd awdur y llythyr hwn nad oedd angen cymharu a gwrthgyferbynnu gan fod rhagoriaeth Iesu yn gwbl amlwg iddo/iddi. Rhaid oedd dal gafaél yn Iesu, beth bynnag y gost. Os byddai erledigaeth hyd at farw'n digwydd, yna gwell hynny na gwadu Iesu. Roedd rhagoriaeth Iesu yn arwain at deyrngarwch iddo, a ffydd fyw yn arwain at fywyd o ffyddlondeb. Nid oedd lle i lastwreiddio'r ffydd na chyfaddawdu ar deyrngarwch. Felly y bu, ac felly y mae, onid e?

Gweddi

Plygwn ger dy fron, Arglwydd, gan ddiolch am y rhai a wynebodd erledigaeth hyd at farwolaeth. Diolch am y dewrion sy'n arddel Iesu heddiw yn wyneb heriau anodd a phoenyddio creulon. Tystiwn yn aml gyda'r emynydd wrth gyfaddef 'mai rhy rwydd yw'n llwybr ni'. Amen.

Trafod ac Ymateb

- Ym mha ffyrdd y mae'r Arglwydd Iesu 'yn rhagori llawer iawn /ar bob peth a welodd llygad / ar hyd wyneb daear law'n' (*Caneuon Ffydd*, 320; e.e. gw. Hebreaid 1: 1-4; 8:6; 9:11-14)?
- Gyda golwg ar y cyfnod rydym ynddo pan fu'n anodd inni gyfarfod fel Cristnogion i annog ein gilydd ac y bu inni o bosibl fynd allan o'r arfer o fod yn rhan o gynulleidfa o addolwyr, sut yr awn ni ati i ailgydio ac 'ennyn yn ein gilydd gariad a gweithredoedd da', ac 'annog ein gilydd' (Hebreaid 10:24-5)?
- Wedi dod i ben ein taith yng nghwmni rhai o gymeriadau'r Testament Newydd, pa rai yw eich hoff gymeriadau chi, a pham?

[Dyma'r wers olaf yn y gyfres 'Cymeriadau'r Testament Newydd'. Ac fe hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr iawn i Denzil John am ei lafur a'i barodwydd inni ddefnyddio'r myfyrdodau hyn o'i eiddo fel deunydd astudiaeth a thrafodaeth am y flwyddyn a aeth heibio. Hyderwn ichi eu gwerthfawrogi hefyd a chael budd a bendith ohonynt. Byddant yn parhau i fod ar gael, ynghyd â'r fideo wythnosol a baratowyd gan Denzil, ar y ddolen a roddir uchod. Gol.]

S4C

Nos Sul, 27 Mehefin – *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*, am 7:30yh

Dyma'r rhaglen olaf yn y gyfres bresennol hyd yr hydref. Wrth i'r gyfres ddirwyn i ben, bydd Nia yn ein tywys drwy rai o uchafbwyntiau'r gyfres bresennol – o ganu grymus i straeon teimladwy o bob cwr o Gymru.



Sul, 27 Mehefin – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp
R Alun Evans sy'n parhau â'r gyfres yn trafod themâu gwahanol y ffydd yn ein hemynau. 'Gras' sydd dan sylw ganddo y Sul hwn.

Sul, 27 Mehefin – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp
yng ngofal Naiomi Starkey, Ardal Gweinidogaeth Bro Padrig, Môn



O Gefn Gwlad



Gormes a dylanwad

Cefais fy atgoffa yn ystod yr etholiad diweddar am yr athronydd o'r bedwaredd ganrif a'r bymtheg John Stuart Mill, a'i gyfrol *On Liberty*. Yn hon y gwelais gyntaf yr ymadrodd 'gormes y mwyafrif' (*the tyranny of the majority*), lle mae'r mwyafrif mewn cymdeithas neu wladwriaeth yn tra-arglwyddiaethu a sathru ar hawliau'r lleiafrif neu'r lleiafrifoedd – testun ar gyfer ein Cylch Trafod pan gaiff y cyfle i gyfarfod eto.

Dydw i ddim yn cofio union ateb Mill i'r broblem. Ond rwy'n meddwl mai ceisio am ryw gymaint o gonsensws rhwng y mwyafrif a'r lleiafrif oedd un awgrym ganddo, gan sicrhau bod dyheadau a dymuniadau'r lleiafrif hefyd yn cael sylw a pharch. Gallai'r rheini ddylanwadu er gwell ar benderfyniadau'r mwyafrif.

Beth sydd a wnelo hyn â ni, y rhai sy'n arddel Cristnogaeth ac yn mynychu lle o addoliad pan fydd yr amgylchiadau'n caniatáu? Onid mater i brif weinidogion a llywodraethau yw hyn? Ie, yn sicr, ond mae'n bwysig ein bod ninnau, gan ein bod yn lleiafrif bychan erbyn hyn, yn ystyried ein sefyllfa ynghanol y mwyafrif mawr sy'n bygwth ein tagu o fodolaeth.

Mae ein Cylch Trafod yng Nghefnddwysarn, a minnau hefyd, yn euog o beidio troi'n ddigon aml i'r Beibl i chwilio am atebion i'n problemau. Ie, chwilio ym mhobman arall. Ond mae'r ateb yno, yng ngeiriau Crist ei hun. Mi gofiwch yr adnodau: 'Chwi yw goleuni'r byd!' A thrachefn: 'Ac ni oleuant gannwyll a'i doddi dan lestr, ond mewn canhwylbren a hi a oleua i bawb sydd yn y tŷ.'



Wedi darllen yr adnodau hyn, mi es i a Gwynfor, fy mab yng nghyfraith, i'r festri, ein man cyfarfod arferol fel cylch, yn hwyr un noson dywyll. Yna, diffodd pob golau cyn cynnau un gannwyll a'i gosod ar y bwrdd. Gwir y gair, yr oedd ei goleuni'n disgleirio rhyw gymaint i bob congl o'r ystafell, a llewyrch golau'n tyneru'r holl dywyllwch.

Fel hyn y mae ein dylanwad ni yn gallu effeithio peth ar fywydau pobl eraill, ar benderfyniadau a wneir mewn pwyllgorau, y dylanwad y gallwn ei gael ar feddylfryd y mwyafrif yn ein cymdeithas. Na ddigalonwn ein bod yn ychydig; gallwn fod fel y gannwyll yn goleuo rhyw gymaint ar bob sefyllfa yr ydym ynddi.

Bydd ein dylanwad ar bawb yn wahanol. Gallwn wneud mwy dros y rhai sydd yn ein hymyl, yn agos i'n golau – ein teulu, ein cyfeillion a'n cymdogion, cyd-aelodau ein cymdeithas. Ond beth am y rhai pell i fwrdd? Pan aeth Gwynfor i eistedd beth pellter oddi wrth y gannwyll ni allwn weld ei wyneb, dim ond arlliw i wybod ei fod yno. Dyna hefyd yw'r rhai mewn gwledydd eraill i ni, y rhai â'u hangen mor fawr. Gwyddom am eu bodolaeth, gallwn weddio drostynt, goleuo peth ar eu tywyllwch, ond cofiwch – os nad yw ein gweddiâu'n ein harwain i gyfrannu at yr elusennau sy'n gweithio

drostynt, yna geiriau gwag fydd pob gair a lefarwn. Wnaiff Duw ddim byd hebddon ni. Dyna'r ffaith.

Ond gwyliwn hefyd. Gwir fod golau'r un gannwyll yn lleddfu'r tywyllwch yn y festri, ond ni allem weld dim byd yn glir – na llyfr na llun, na chadair na mainc, na llawr na mur. Argraff ohonynt yn unig a gaem.

Mae'r cyfyngu hwn yn wers bwysig i ni. Lleiafrif ydym, nid mwyafrif. 'Goleuo i bawb sydd yn y tŷ' ddywedir yn yr adnod. Lled y golau, nid ei ddisgleirdeb. Gallwn, os na wylw, geisio bod mor ormesol â'r mwyafrif.

Gwell bod yn lleiafrif dylanwadol nag yn fwyafrif gorthrymus. Nid golau tanbaid yn dallu'r rhai yr hoffem ddylanwadu arnynt ydym, i fynnu eu bod yn gwneud fel y dymunem.

Nid y 'Spanish Inquisition' mohonom! Na, dylanwad iachusol, tyner ydym, gobeithio. Yn ein holl ymwneud â'n gilydd, ac ag eraill, mewn byd ac eglwys, pwysig gweithredu gras – nid grym, cariad – nid casineb, cynnal cymdeithas – nid carchar.

Mae'r tri gair yna yn y Fendith sy'n terfynu pob gwasanaeth, ac rydym yn ei hadrodd yn aml fel rhaff trwy dwll. Beth am ei llefaru yn fwy meddylgar gan bwysleisio'r tri gair – gras, cariad a chymdeithas – arfogaeth a'n man gweithredu ni, y lleiafrif Cristnogol, yn ein gwlad?

*Elfyn Pritchard
Sarnau*

Covid-19 yn effeithio ar eglwys yn India

Mewn cyfweiliad a gynhaliwyd dros Zoom gyda'r Parch Bishar Mawlong a'i wraig, Bakor Bennet, o Gasia, fe gafwyd cipolwg ar sefyllfa'r pandemig yn nhalaith Meghalaya yn yr India.

Clywyd am anghenion ysbytai'r eglwys yno yn Shillong a Jowai ar fryniau Casia-Jaintia ac am waith yr eglwys yn gyffredinol yn wyneb yr angen mawr y mae'r pandemig wedi ei greu. Roeddy ddau yn cofio'n annwyl iawn at bawb y bu iddyn nhw eu cyfarfod yng Nghymru ar eu hymweliadau â ni. Cyfeiriwyd hefyd at y cyswllt sydd rhyngom drwy'r genhadaeth Gymreig yno a Diwygiad 1904/5 yng Nghymru a gyeuwyd yng Nghasia wedyn yn 1905, lle bu diwygiadau

cyson o'r Ysbryd Glân oddi ar hynny. Gellir gwyllo'r cyfweiliad drwy ddilyn y ddolen hon: https://youtu.be/JE_ckDUF3wo

Bu'r ymateb i'r Apêl Frys at Ysbytai Gogledd-ddwyrain India gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru yn eithriadol hyd yma, ac mae'n debyg fod dwywaith swm y targed o £30,000 wedi ei gasglu erbyn i Rodd Cymorth gael ei ychwanegu.

Mae'r eglwys yn India, sef tua 4% o boblogaeth y wlad, a'r gwledydd yn yr ardal yma o Asia wedi cael eu heffeithio mewn sawl ffordd gan y pandemig. Un o'r rheini yw'r ffaith eu bod wedi colli cymaint o fugeiliaid yr eglwys i'r afiechyd. Adroddir gan fudiadau Cristnogol yn India a Nepal am golli dros 2000 o weinidogion a bugeiliaid eglwys i Covid hyd at ddechrau Mehefin eleni. Mae hyn wedi gadael nifer o



weinidogaethau ac eglwys mewn sefyllfa fregus, gyda chynulleidfaoedd mewn braw a gwaelled a newyn yn aml yn eu cael eu hunain heb ofal bugeiliol chwaith. Cofiw ninnau mewn gweddi dros yr eglwys ym Meghalaya, Gogledd-ddwyrain India a'r wlad yn gyfan ar yr adeg pryderus hwn.

[Am fwy o wybodaeth, cliciwch yma](#)

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Cywilydd, ofn ac adnabod

Gwedd

Arglwydd, caniatâ i ni heddiw'r gallu i roi heibio ein statws, ein hofnau, ein hamheuron, ein doluriau cudd, i'th geisio ac i gredu ynot. Caniatâ i'r geiriau sydd mor gyfarwydd i ni ennill ein serch o'r newydd, wrth iddynt ddod yn fyw yn ein deall a'n profiad drachefn. Ysbryd Glân, caniatâ i ni weld Iesu, Amen.

Darllen – Salm 30

Emyn 306 – 'O Iesu mawr'

Cyflwyniad

Mae dyfodiad 'efengyl Iesu Grist, Mab Duw' yn newyddion da, syfrdanol. Daeth y deyrnas, ac ni chaiff unrhyw un ohonom eistedd ar y ffens am Iesu. Cawn naill ai ein denu ato mewn ffydd a chariad, neu amlygir ein hamharodrwydd i edifarhau a chredu'r newyddion da.

Weithiau, 'syfrdanwyd' pobl gan eiriau Iesu a'i weithredoedd (1:27). Weithiau, byddent yn 'synnu' (2:12). Dro arall, ystyfnigrwydd a nodweddi'r rhai oedd yn cynllwynio o'r cychwyn cyntaf i'w ddifa a'i ladd (3:5). Ond, deirgwaith, darllenwn am bobl yn ymateb ag 'ofn' wrth iddynt ymateb i Iesu (4:40; 5:15; 5:33). Wrth i wraig oedd yn dioddef o waedlif ymateb i ddaioni Iesu, daeth dan 'grynu yn ei braw'. Ac wrth i Jairus bryderu yng nghwmni Iesu, cafodd ei annog, 'Paid ag ofni, dim ond credu.'

Darlleniad

Marc 5: 21–34 – Iacháu merch Jairus, a'r wraig a gyffyrddodd â mantell Iesu

Myfyrdod

Heddiw, cawn y fraint o ddilyn dau berson ar lwybr taith eu ffydd at Iesu. Nodweddir daith honno gan y canlynol:

Angen yn cael ei adnabod

Ddaeth neb at Iesu erioed heb sylweddoli a chyd-nabod eu hangen.

Dywedir am **Jairus** ei fod yn 'un o arweinwyr' (fel blaenor/diacon?!) y synagog.

Efallai ei fod yn teimlo'n anniddig braidd fod yr Athro teithiol hwn yn dod i'w fro. Wedi'r cyfan, roedd swyddogion y gyfundrefn grefyddol yn drwgdybio Iesu, ac ymddangosai fel petai cynnwrf yn dilyn ei ymweliadau ag ardaloedd gwahanol.

Efallai ei fod yn hanner edrych ymlaen at gwrdd ag Iesu. Un peth sy'n sicr yw mai'r hyn a barodd iddo ymbil ar Iesu i ymyrryd yn ei fywyd oedd y storm o bryder ac ofn a'i goddiweddi. Roedd ei ferch yn 12 mlwydd oed, ac yn ôl arfer y cyfnod, bron â bod yn ddigon hen i briodi. Eto, ei 'ferch fach' oedd hi i Jairus, ac roedd arswyd arno am fod haint yn difa ei bywyd.

Am 12 mlynedd bu'r **wraig ddiennw** hon yn dioddef o waedlif. Heb Wasanaeth Iechyd, roedd wedi gwario'r cyfan a feddai ar feddygon. Ond parhaodd y symptomau i gyd. Ac ar ben hyn oll, ni allai fynychu oedfaon yn y synagog neu'r deml am ei bod yn 'afllan', ac yn aflan i bwy bynnag a'i cyffyrddai.

Y cyfan a wyddai oedd fod angen dwfn arni, ynghyd ag egin ffydd, 'Os cyffyrddaf...' Boed yn gyhoeddus neu'n ddirgel, dod at Iesu wnaeth y ddau ohonynt am fod ei angen arnynt.

Cyffyrddiad Iesu

Nid yw ymwneud Iesu â phobl byth yn unfurf.

Roedd y **wraig** wedi 'clywed am Iesu', ac mae'n amlwg fod yr hyn a glywsai amdano wedi hau egin yn o ffydd yn ei chalon. A chredai y medrai hyd yn oed gyffwrdd yn ddirgel ag Iesu hefyd iacháu ei salwch dirgel hi.

Ac yna estynnodd hi ei llaw a chyffwrdd ag ef.

Gwyddai Iesu, er mawr syndod i'w ddisgyblion, 'fod y nerth oedd yn tarddu ynddo wedi mynd allan'. Nid camp consuriwr oedd ei hiachâd, na chanlyniad ofergeol chwaith.

Er i bobl ddod at Iesu yn y dirgel, nid ydynt byth yn anhysbys iddo ef. Rhan annatod o brofiad ffydd ddirgel y Cristion yw'r cadarnhad a ddaw wrth i ni ddwyn tystiolaeth allanol, gyhoeddus i'r cyfnewidiad mewnol a wnaed ynom. 'A dyma'r gair yr ydym ni yn ei bregethu, gair ffydd,' meddai'r Apostol Paul ei hun. 'Os cyffesi Iesu yn Arglwydd â'th enau, a chredu yn dy galon fod Duw wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, cei dy achub' (Rhufeiniaid 10:9).

Canlyniad y cyfarfyddiad cyhoeddus oedd iddi gael clywed geiriau Iesu'n ei sicrhau bod ei ffydd ynddo wedi ei hiacháu.

Yna, yng nghanol hyn oll i gyd, cyrhaeddodd y newyddion fod yr oedi wedi costio bywyd merch ifanc. Roedd merch fach Jairus wedi darfod, wedi marw, y tu hwnt i allu unrhyw un. Tybed nad oedd yn ei anobaith hefyd yn ddig gydag Iesu nad oedd wedi ymateb yn gynt i'w gais?

Trodd Iesu ato gan ei gyfarch, 'Paid ag ofni, dim ond credu.' Ac fel y gorchynnodd i'r storm ar y môr dawelu, tawelwyd ofnau Jairus.

Er i'r dyrfa yn ei galar a'i wlo ei wawdio, cyhoeddodd Iesu mai 'cysgu' oedd y fechan. I Gristnogion ar hyd y canrifoedd, cyfeiriwyd gyda gobaith yng Nghrist at farwolaeth ei hun fel 'huno' (1 Thesalonïaid 4:13 ymlaen).

Mor dyner oedd geiriau Iesu, bron fel rhiant yn ceisio deffro plentyn bach yn y bore. Llefarodd yn Aramaeg ei haelwyd ac iaith ei chalon. 'Talitha côm ... fy ngeneth, rwy'n dweud wrthy, cod.' Llefarodd ag awdurdod, a chlywodd yr un oedd yn huno ei lais. Llefarodd gyda gofal, gan orchymyn iddi gael pryd o fwyd. Digwyddiad cyffredin yng nghanol cynnwrf yr anghyffredin. A do, 'trawyd hwy yn y fan â syndod mawr'.

Nid anghofiodd Jairus na'i deulu byth mo'r dydd y daeth Iesu i'w cartref!

Tybed nad ydy Marc am ein hatgoffa o ryfeddod dirgel bywyd yr 'hedyn mwstard', y cynhaeaf sy'n cynyddu wrth gysgu a deffro (4:26–32)? Tybed nad ydy Marc am i ni sylweddoli bod grym teyrnasiad Duw ar waith ac mai'r Arglwydd Iesu ei hun yw brenin tirion a buddugol y deyrnas; bod bywyd ynddo'i hun; mai ef ei hun yw'r Atgyfodiad a'r bywyd (Ioan 11:25)?

Gwedd

Geidwad hollalluog, wrth i ni dy geisio heddiw, addefwn mai ti yw ein Duw, ein gobaith, ein nerth, ein hatgyfodiad, ein hiachawdwr a'n diddanwr. Diolch nad ynom ni, nac o ryw fympwy o'n heiddo ni, ond trwy waith dirgel dy Ysbryd ynom, y tarddodd y sylweddoliad hwn. Diolch na ddaeth unrhyw un atat yn anhysbys, ond dy fod wedi adnabod yn drylwyr bob un a fwriddod ei ffydd ynot ti. Diolch am wrthrych teilwng o'n ffydd. Diolch am Iesu Grist. Amen.

Emyn 795: 'Pan fwy'n teimlo'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)